



Stepping In Camu i Mewn



Briff Gwerthuswr: Camu i Mewn#2

Cyllideb: £3,000

Sefydliad Comisiynu: WAHWN (Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru)

Cyfnod y Gwaith: Ebrill – Rhagfyr 2026

1. Cefndir

'Camu i Mewn', a gyllidir gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad Baring, yw prif raglen WAHWN o hyfforddiant, mentora a dysgu ar sail profiad, sy'n cefnogi ymarferwyr heb gynrychiolaeth ddigonol i 'gamu i mewn' i faes y celfyddydau, iechyd a llesiant. Mae wedi'i hanelu'n benodol at ymarferwyr gyda phrofiad byw o iechyd meddwl; ymarferwyr Cymraeg eu hiaith a'r rheini o gefndir mwyafrif byd-eang; LHDTTC+; B/byddar/anabl, mewn ymateb i'r diffyg amrywiaeth yng ngweithlu creadigol y celfyddydau ac iechyd.

Gan weithio gyda'n partneriaid – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Pontio, Theatr Cymru, Denbighshire Leisure Ltd a Fran Wen, byddwn yn cefnogi 12 o

ymarferwyr creadigol drwy wythnos lawn o hyfforddi; cymorth mentora; lleoliad gwaith ar brosiect byw a chymorth llesiant cofleidiol.

Mae WAHWN yn awyddus i benodi gwerthuswr allanol i gofnodi effaith y cam hwn yn y rhaglen a helpu i ffurfio dysgu sy'n cefnogi datblygu ymarfer o fewn WAHWN ac ar draws y sector ehangach.

2. Diben y gwerthusiad

Bydd y gwerthuswr yn arwain gwerthusiad datblygiadol sy'n ateb:

A. Pa wahaniaeth a wnaeth Camu i Mewn i'r cyfranogwyr?

- Datblygu sgiliau, hyder, dysgu, ac ymarfer
- Newidiadau o ran llesiant, ymdeimlad o gysylltiad neu gyfeiriad proffesiynol
- Yr hyn a gafodd y cyfranogwyr na fyddent wedi'i gael yn rhywle arall
- Canlyniadau annisgwyl neu sy'n datblygu, cadarnhaol neu negyddol

B. Pa wahaniaeth a wnaeth Camu i Mewn i bartneriaid cyflwyno?

- Effeithiau ar arweinwyr bwrdd iechyd, partneriaid, sefydliadau a gwesteiywyr celfyddydol
- Cryfhau perthnasoedd traws-sector
- Beth oedd yn gweithio'n dda o ran deinameg y bartneriaeth a beth a allai fod yn well
- Sut mae Camu i Mewn yn cefnogi neu'n cyd-fynd â blaenoriaethau sefydliadol

C. Beth yw'r effaith ehangach ar WAHWN a'r sector?

- Dysgu sy'n cryfhau rôl strategol WAHWN
- Cyfraniad i dystiolaeth ar ymarfer celfyddydau-iechyd yng Nghymru
- Dylanwadu ar rwydweithiau, sgysiau polisi, meithrin gallu a datblygu at y dyfodol
- Argymhellion ar gyfer iteriadau'r dyfodol o Camu i Mewn

3. Dull Gweithredu

Rydym ni'n edrych am **werthuswr** a all weithio'n gydweithredol drwy gydol y cyfnod cyflenwi.

Bydd y gwerthuswr yn:

- Cynnig **dull a methodoleg gwerthuso** clir ond cymesur sy'n addas ar gyfer cyllideb o £3k.
- Defnyddio dulliau cymysg (ffocws ansoddol, a meintiol ysgafn lle bo'n ddefnyddiol)
- Cyd-gynllunio offer realistig ar gyfer casglu data (e.e. arolygon byr, cwestiynau myfyriol, cyfweiliadau lled-strwythuredig, straeon cyfranogwyr, dulliau creadigol/gweledol os yw'n briodol)
- Cynnwys **sesiynau myfyrio gyda chymheiriaid** drwy gydol y cyfnod:
 - O leiaf 2–3 o sesiynau gyda thîm WAHWN, ymarferwyr creadigol a phartneriaid
 - Lle i drafod *beth sy'n gweithio, beth sy'n heriol a beth allai fod yn well.*
 - Sesiynau sy'n creu synnwyr wrth fynd ymlaen, ac nid adrodd yn unig.

Elfennau a awgrymir ar gyfer y gwerthusiad:

- Cofnodi bwriadau/anghenion gwaelodol ar ddechrau'r rhaglen.
- Sesiwn myfyrio gyda chymheiriaid hanner ffordd drwy'r rhaglen.
- Casglu achosion enghreifftiol / straeon newid gan gyfranogwyr a phartneriaid
- Sesiwn fyfyrion olaf i adolygu themâu a ffurfio argymhellion.
- Adroddiad gwerthuso cryno terfynol (dim mwy na 10 tudalen).

4. Targedau Cyflawnadwy

A. **Cynllun a methodoleg gwerthuso** (Ebrill 2026)

- a. Dull, offer, amserlen, ystyriaethau moesegol.

B. Casglu a dadansoddi data'n barhaus

- a. Ymgysylltu â chyfranogwyr a phartneriaid

C. Sesiynau myfyrio gyda chymheiriaid

- a. Hwyluso a nodiadau crynhoi

D. Adroddiad Gwerthuso terfynol (Rhagfyr 2026) yn cynnwys:

- a. Canfyddiadau allweddol: effaith ar y cyfranogwyr, effaith ar y partneriaid, effaith ar y sector
- b. Beth weithiodd / beth allai fod yn well?
- c. Argymhellion ymarferol ar gyfer y camau nesaf
- d. Tystiolaeth o newid (ansoddol, a meintiol ysgafn)
- e. Crynodeb byr / ffeithlun neu grynodeb gweledol (dewisol ond croesawir)

5. Sgiliau a Phrofiad angenrheidiol

Hanfodol

- Siaradwr Cymraeg rhugl
- Gallu cydweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid ac ymarferwyr
- Deall polisi diwylliannol neu gyd-destunau'n gysylltiedig â llesiant yng Nghymru
- Profiad o werthuso rhaglenni aml-bartner
- Profiad o werthuso celfyddydau ac iechyd neu werthuso cyfranogol
- Sgiliau synthesis cryf ac adrodd cryno

Dymunol

- Profiad o hwyluso manau dysgu myfyriol.

6. Cyllideb ac Amserlen

- **Cyfanswm o £3,000** yn cynnwys paratoi, cyflwyno, teithio ac adroddiad
- Cynhelir y gwaith **Ebrill – Rhagfyr 2026**
- Adroddiad terfynol i'w gyflwyno erbyn **canol mis Rhagfyr 2026**

7. Sut i wneud cais

Anfonwch gais byr (2-3 tudalen neu gyfatebol) yn amlinellu:

- Eich **dull a'ch methodoleg** arfaethedig
- Profiad perthnasol
- Sut y byddwch yn cydweithio gyda WAHWN a phartneriaid
- Dadansoddiad o amserlen/costau
- Unrhyw enghreifftiau o waith blaenorol (dolenni'n dderbyniol)

Dyddiad cau ceisiadau: - **Hanner dydd, 31 Mawrth 2026**

Anfonwch y cais i Angela Rogers, Prif Swyddog Gweithredol, WAHWN
info@wahwn.cymru



Wales Arts
Health & Well-being
Network
Rheolyddiaeth Iechyd a
Llesiant Celfyddydau
Cymru

Stepping In Camu i Mewn



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®



CANOLFAN GERDD
William Mathias



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®



WAHWN

WAHWN (Rhwydwaith Celfyddydau, Iechyd a Llesiant Cymru), a sefydlwyd yn 2013, yw'r corff cymorth sector cenedlaethol yng Nghymru ar gyfer y celfyddydau, iechyd a llesiant. Mae ein gwaith yn seiliedig ar ddeddfwriaeth ac ysgogwyr allweddol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a Memorandwm Cydddealltwriaeth rhwng Conffederasiwn GIG Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae ein haelodaeth ar gynnydd ac yn cynnwys dros 1200 o weithwyr proffesiynol yn y celfyddydau ac iechyd, gan gynrychioli sectorau'r celfyddydau, iechyd ac addysg uwch a gweithio ar draws yr ystod lawn o ymarfer celfyddydol mewn lleoliadau iechyd, celfyddydau a chymunedol. Mae WAHWN yn falch o'i rôl ganolog mewn nifer o fentrau partneriaeth allweddol ac o'n safle yn cynnig llais cenedlaethol i'r sector ar lefel strategol, gan ddangos arfer gorau wrth roi polisïau sy'n bodoli ar waith a dylanwadu ar bolisïau newydd.

<https://wahwn.cymru/cy/hafan>